

Hwyluso gweithio ar draws meysydd

Alison Parken a Hannah Young

Mawrth 2008



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynnwys

Cynnwys	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
Creu'r amgylchiadau iawn ar gyfer gweithio ar draws meysydd.	5
Cynllun y Prosiect	Error! Bookmark not defined.
Materion cynrychiolaeth.	5
Hyfforddi a hwyluso ar gyfer gweithio ar draws meysydd	Error! Bookmark not defined.
Y dull prif ffrydio a chanfyddiadau darlunio	Error! Bookmark not defined.
Canfyddiadau ac Argymhellion ar gyfer Prif ffrydio Aml-faes	Error! Bookmark not defined.
Llyfryddiaeth Ddethol.	17

Cyflwyniad

Mae'r tirlun cydraddoldeb cyfredol yn gymhleth. Mae'n ofynnol bellach i'r llywodraeth a darparwyr gwasanaeth greu polisi sy'n cydymffurfio â'r canlynol:

- Chwe 'maes' triniaeth gyfartal a deddfwriaeth gweithredu cadarnhaol
- Darpariaeth triniaeth gyfartal i'r iaith Gymraeg
- Tair dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb (hil, anabledd a rhyw)¹
- Cyfraith hawliau dynol a safonau darpariaeth gwasanaeth
- A'r ddyletswydd i 'hyrwyddo cydraddoldeb i bawb', unigryw i Gymru²

Nod benodol *Cynllun Cydraddoldeb Sengl* Llywodraeth Cynulliad Cymru yw rhagori ar gydymffurfiaeth. Yn hytrach, mae'n bwriadu i'r defnydd rhagweithiol a chreadigol o gydraddoldeb a deddfwriaeth hawliau dynol ei chaniatáu i gwrdd â'r ymrwymadau iechyd, addysg, cyfiawnder cymdeithasol a chyflogaeth a osodwyd yn agenda'r llywodraeth *Cymru'n Un*. Felly nid ystyrir deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yn beth llethol ond yn hytrach fel rhywbeth i'w ddefnyddio fel llwybr i greu polisi a gwasanaethau sy'n unioni anghydraddoldebau creiddiol (Adolygiad ar Gydraddoldeb 2007).

Mae ymchwil diweddar i weithredu Safonau Hawliau Dynol fel man cychwyn ar gyfer creu polisi newydd wedi canfod:

.....cysylltiadau cysyniadol rhwng hawliau dynol a chydraddoldeb. Honnodd yr adroddiad bod hawliau dynol yn gallu llenwi bylchau mewn deddfwriaeth cydraddoldeb megis diffyg gwarchod pobl hŷn mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Awgrymir y byddai'n fuddiol gweithredu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol gyda'i gilydd, er mwyn osgoi

¹ Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Diwygio) 2005, Deddf Cydraddoldeb (2006)

² s.75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

gosod beichiau rheoleiddiol newydd (Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, 2007).

Ac eto nid oes map ar gyfer rheoli'r holl "feysydd" neu ddod â chydraddoldeb a hawliau dynol ynghyd yn y broses greadigol hon. Er bod deddfwriaeth ar gyfer triniaeth gyfartal yn debyg yn y chwe 'maes', mae tarddiad y meysydd a'r anghydraddoldebau a brofir rhyngddynt yn wahanol, mae'r tair dyletswydd cydraddoldeb yn wahanol o ran amcanion a chynghor ar gyfer cydymffurfio, ac nid oes fawr o ddeall na gweithredu ar safonau hawliau dynol. Nid fu erioed ddull ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb i bawb.

Sut fedrwn ni integreiddio hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, a hwyluso'r diddordeb cynyddol mewn gweithio ar draws meysydd er mwyn i ni allu ymdrin â'r 'person cyflawn'? I fod yn llwyddiannus rhaid i unrhyw ddull oresgyn y gystadleuaeth sydd wedi codi rhwng 'meysydd' yn sgil deddfwriaeth mewn meysydd unigol, a rhaid iddo ymdrin â thueddiad deddfwriaeth triniaeth gyfartal i awgrymu y dylid trin pob 'maes' yr un fath â'i gilydd. Er bod academyddion, gwneuthurwyr polisi a chyrrff rheoli wedi dechrau ystyried yr angen i fabwysiadu ymagwedd integredig ac wedi gwneud awgrymiadau ynglŷn â'r elfennau angenrheidiol (Zappone 2001, Yuval-Davies 2006, Verloo 2006), nid oes unrhyw ddull wedi'i brofi hyd yma.

Mae'r papur trafod hwn yn cynnig trosolwg o brosiect unigryw a gynhaliwyd yng Nghymru, wedi'i gyllido gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn 2007, ac a gynlluniwyd i geisio deall sut i hwyluso'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws meysydd. Rydym yn cynnig y disgrifiad cryno hwn o'n dysgu, fel canllaw ar gyfer gweithredu proses o brif ffrydio'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n symud y tu hwnt i gydymffurfriad.³ Rydym yn esbonio pam ein bod yn dadlau dros ymagwedd aml-faes yn hytrach nag un ar draws meysydd ac yn cynnig argymhellion ar gyfer hwyluso gweithio aml-faes yn y dyfodol.

³ Gellir cael yr adroddiad llawn gan Is-Adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dylid dathlu'r ffaith fod y gwaith arloesol hwn wedi'i ddechrau yng Nghymru. Rydym yn gobeithio y bydd rhannu ein dysgu yn cynorthwyo ac yn cefnogi gweinyddiaethau, comisiynau cydraddoldeb a darparwyr gwasanaeth eraill drwy'r byd. Mae Isadran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu sylwadau ac yn edrych ymlaen at weithio gyda hwy i adeiladu ar y camau cychwynnol hyn er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.

Dr. A. Parken, cadeirydd y prosiect a Dr. H. Young, ymchwilydd gweithredol

Ar ran y Panel Tystiolaeth Aml-Faes

Creu'r amgylchiadau iawn ar gyfer gweithio ar draws meysydd.

Cynllun y Prosiect

Crëwyd y cynllun ymchwil ei hun i hwyluso gweithio ar draws meysydd. Mae elfennau ohono yn hanfodol ar gyfer creu amgylchedd y gall pawb gyfrannu iddo.

Y cam cyntaf a'r mwyaf hanfodol yw sefydlu'r prosiect mewn modd sy'n golygu ei fod yn hwyluso cydweithio. Felly, fe ddewisom ni ddod â swyddogion polisi pob un o'r 'meysydd' cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, a hawliau dynol ynghyd fel Panel Tystiolaeth.

Tasg y panel oedd gweithio drwy broses oedd eisoes wedi'i sefydlu o brif ffrydio yn seiliedig ar dystiolaeth ym maes rhyw (Rees a Parken 2002, 2003), gan gynnal gwerthusiad ymarferol o anghydraddoldebau mewn maes polisi. Roedd hyn yn caniatáu i'r ymchwilwyr asesu sut y gellid newid egwyddorion ac offerynnau prif ffrydio i gwmpasu'r 'meysydd' gwahanol. Dewisodd y panel ganolbwyntio eu hymholiadau ar ofalwyr anffurfiol di-dâl yng Nghymru.

Un egwyddor sylfaenol ar gyfer y cynllun ymchwil, ac ar gyfer gweithio yn y dyfodol gyda Phaneli Tystiolaeth ar draws meysydd oedd osgoi'r hierarchaeth rhwng 'meysydd' a grëir gan anghydbwysedd deddfwriaethol. Felly rhoddwyd blaenoriaeth gydradd i bob 'maes' ar y dechrau drwy osod y ddyletswydd cydraddoldeb prif ffrydio Cymreig fel meincnod.

Materion cynrychiolaeth.

Wrth recriwtio Panel Tystiolaeth i hwyluso gweithio ar draws meysydd mae'n bwysig sicrhau gwybodaeth cydraddoldeb a gwybodaeth polisi. Gellir gwneud hyn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, hysbysebu am aelodau panel sydd ag arbenigedd yn y maes polisi dan sylw ynghyd â gwybodaeth am anghydraddoldebau yn y maes polisi.

Er enghraifft, roedd yr wybodaeth benodol a gyflwynwyd i'n Panel Tystiolaeth ynglŷn â'r ffordd y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu trefnu yng Nghymru wedi'n harwain ni i ddeall canlyniad

anfwriadol i hyn, sef bod 'gofalwyr ifanc' yn gallu llithro drwy'r system, sy'n golygu mai ychydig iawn ohonynt sy'n derbyn asesiad gofalwr. I esbonio, cynhelir Asesiad Gofalwr gan y gwasanaethau cymdeithasol oedolion oherwydd mai oedolion sydd fel arfer yn darparu gofal di-dâl. Mae cynnal asesiad gofalwr ar blentyn yn golygu sbarduno 'asesiad plentyn mewn angen' llawn. Mae'n bosibl y gallai rhieni wrthwynebu'r math hwn o asesiad oherwydd y canfyddiad ei fod yn broses fwy dwys a mewnwthiol na'r hyn sydd ei angen i asesu a fyddai darparu gofal seibiant yn caniatáu i'r plentyn fynychu ymarfer pêl-fasged ar ôl ysgol un noswaith yr wythnos er enghraifft.

Yn ail, mae'r broses o brif ffrydio yn seiliedig ar dystiolaeth yn gweithio orau pan fydd 'gwneuthurwyr cydraddoldeb a gwneuthurwyr polisi' yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol yr ymchwiliadau; yn canfod ac yn perchnogi'r data a chanfyddiadau'r ymchwil; yn gweithio ynghyd ar ddatrysiadau. Roeddem yn gallu dyblygu hyn raddau yn ystod ein prosiect byr drwy gyfweiliadau gyda swyddogion polisi arweiniol ar gyfer gofalwyr yn y llywodraeth, llywodraeth leol a chyda darparwyr gwasanaeth, ond ar gyfer prosiectau yn y dyfodol byddai'n well cael swyddogion polisi yn chwarae rhan lawn yn y prosesau casglu tystiolaeth.

Yn dilyn ymarfer recriwtio yn defnyddio awdit sgiliau a gwybodaeth, darparwyd cynrychiolwyr i'r Panel Tystiolaeth gan y sefydliadau canlynol: Age Concern Cymru, Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, Y Comisiwn Hawliau Anabledd, Y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Stonewall Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chynghorydd hawliau dynol o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae cyrff statudol wedi bod yn gorfodi hawliau ac yn eiriol ar ran hil, rhyw ac anabledd, tra bod y 'meysydd' mwy 'newydd' wedi dibynnu ar eiriolaeth o'r sector gwirfoddol, gan arwain at wahanol flaenoriaethau ac arferion sefydliadol rhwng y 'meysydd' â'i gilydd. Roedd cael cynrychiolwyr o'r ddwy sector yn caniatáu i ymchwilydd gweithredol y prosiect astudio'r ymagweddau sefydliadol gwahanol hyn at hybu cydraddoldeb ac ymglymiad rhanddeiliaid, yn ogystal ag asesu pwyntiau o wrthdaro rhwng meysydd â'i gilydd a rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol.

Er mwyn hwyluso ymglymiad sefydliadau o'r sector wirfoddol i gyfranogi, ymgynghori ac i brosiectau fel hwn, mae'n bwysig talu eu costau. Cafodd pob sefydliad sector gwirfoddol gyfraniad oedd yn talu costau teithio ac yn cyfrannu at yr amser a fuddsoddwyd ganddynt yn y prosiect drwy fynychu cyfarfodydd y Panel Tystiolaeth a sesiynau casglu tystiolaeth, a hefyd ar gyfer gwaith cefndir oedd yn cynnwys casglu data a chyflenwi crynodebau o safbwyntiau eu meysydd ac ar draws meysydd, a chyflwyno canfyddiadau i'r grŵp.

Fodd bynnag roeddem yn ymwybodol fod bylchau yn ein cynrychiolaeth - bylchau a gaiff eu hailadrodd ar baneli yn y dyfodol oni bai bod modd hwyluso grwpiau eiriolaeth a bod yr EHRC yn cynyddu gallu yn y meysydd hyn. Er enghraifft nid oes unrhyw sefydliadau sydd wedi'u cyfansoddi'n benodol i eiriol dros gydraddoldeb cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg nac ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau ar sail crefydd a chred yng Nghymru. Camodd Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, i'r bwlch hwn. Corff bach yw Cytûn sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o fewn y gwahanol eglwysi Cristnogol ac mae wedi sefydlu cysylltiadau â'r Cyngor/Fforwm Aml-ffydd.

Yn yr un modd, nid oes corff yn lobïo ar gyfer cydraddoldeb trawsrywiol yng Nghymru. Ar y dechrau roedd gennym gynrychiolydd o Gyngor Ffoaduriaid Cymru ond bu'n rhaid iddo dynnu'n ôl oherwydd diffyg capasiti a phwysau gwaith yn y corff hwnnw. Hefyd fe geisiwyd a methwyd sicrhau eiriolwr neu wneuthurwr polisi ar gyfer materion yn ymwneud â thlodi a dosbarth cymdeithasol.

Ymysg y materion eraill y dylid eu hystyried wrth geisio cynrychiolaeth mae'r angen ar gyfer hyfforddiant ar y 'meysydd' i gyd - dysgu sut mae anghydraddoldebau yn effeithio ar 'feysydd' ar wahân i'w maes eu hunain oedd un o'r pwyntiau dysgu mwyaf gwerthfawr ym marn aelodau'r panel. Mae hyfforddiant ar draws y sbectrwm cydraddoldeb hefyd yn cynorthwyo gyda chyfrif am amrywiaeth o fewn y 'meysydd'. Fel enghraifft o hyn, rydym yn cydnabod cyfraniad cynrychiolydd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ar y panel, yr oedd ei bresenoldeb yn ein hatal rhag cyfyngu ein hystyriaethau o oedran i brofiad pobl hŷn.

I grynhoi, mae sicrhau'r cynllun prosiect cywir yn hanfodol ar gyfer gweithio'n llwyddiannus ar draws meysydd. Rhaid talu sylw i bwy a all

gymryd rhan (ystyriaethau amser ac adnoddau) pwy y maent yn eu cynrychioli a sut, cyflenwi data mewn dulliau hylaw, ac yn benodol pa gymorth hwyluso a hyfforddiant sydd ei angen.

Hyfforddi a hwyluso ar gyfer gweithio ar draws meysydd

Wrth sefydlu gweithio ar draws meysydd drwy'r defnydd o baneli tystiolaeth mae'n hanfodol trafod, o fewn unrhyw grŵp o eiriolwyr o'r 'meysydd' cydraddoldeb a hawliau dynol, eu safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r hyn yw anghydraddoldeb a sut y gellir creu newid. Ymgwymerodd y panel â hyfforddiant o'r fath yn y cyfarfod sefydlu cyntaf ac mewn sesiynau dilynol.

Yn gyntaf, amlinellodd y grŵp eu meysydd sgiliau, gwybodaeth a phrofiad mewn perthynas â chydraddoldeb. Yna lluniwyd set o reolau sylfaenol ar gyfer cydweithio. Roedd y rhain yn cynnwys gwrando gweithredol, caniatáu i leisiau gael eu clywed drwy sicrhau fod gan bawb amser i gyfrannu at y trafodaethau, cytuno y byddai holl aelodau'r Panel Tystiolaeth yn trin ei gilydd â pharch, oedd yn cynnwys gallu herio ac anghytuno, ac y byddai'r grŵp yn amcanu at weithio i gonsensws.

Yn ail, cynhaliwyd gweithdy lle dynodwyd gennym pa "feysydd" sy'n canfod bod angen cywiro anghydraddoldebau yn unigol lle ceir gwahaniaethu, a pha "feysydd" sy'n ymdrin ag anghydraddoldebau fel ffactorau sy'n siapio bywydau a dewisiadau aelodau o grŵp mewn ffordd systematig. Mae'n bwysig gwybod y gwahaniaethau hyn gan eu bod yn effeithio ar y modd y cesglir ac y dadansoddir data gan arwain at argymhellion gwahanol.

Yn drydydd trafodwyd rhinweddau'r amrywiol ddamcaniaethau ac arferion cydraddoldeb a hawliau dynol (triniaeth gyfartal, gweithredu cadarnhaol, rheoli amrywiaeth, prif ffrydio neu hawliau dynol), a nodwyd pa ymagweddau oedd yn cael eu defnyddio gan bob maes.

Ymhellach, roedd yr hyfforddiant yn archwilio gwahanol darddiadau anghydraddoldeb o fewn "meysydd" gwahanol. Er enghraifft, mae cynnal anghydraddoldeb rhyw – y drefn o rannu llafur sy'n pennu pwy sy'n gweithio ymhle ac o dan ba amodau yn y farchnad lafur (Rees 1998, 2005), a phwy sy'n cyflenwi gofal di-dâl yn ystod blynyddoedd oedran gweithio, yn wahanol o ran tarddiad i anghydraddoldebau hiliol,

anhydraddoldeb anabledd etc. Roedd yr hyfforddiant hwn yn caniatáu i'r panel gydnabod y gwahaniaethau hyn er mwyn i ni allu osgoi trin yr holl 'feysydd' yr un fath. Mae hefyd yn golygu na fydd yr 'ymagwedd ychwanegiadol' o weithio ar draws meysydd, sydd wedi'i drafod yn helaeth (Crenshaw 1993, Yuval-Davies 2006) ar gyfer goresgyn gwahaniaethau rhwng 'meysydd' drwy ddechrau ag un maes ac yna ychwanegu eraill, yn cynhyrchu gwir ddealltwriaeth a chanlyniadau cydraddoldeb addas.

Felly, drwy ein gwaith gyda'n gilydd rydym ni wedi dechrau creu dull *aml-faes* o integreiddio'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. I esbonio, fe ddechreuwyd, fel y disgrifir uchod, drwy roi pwysau cyfartal i bob 'maes' yn y broses ymchwilio. Felly roedd cynllun y prosiect a'r hyfforddiant cysylltiedig yn sicrhau ein bod yn osgoi dechrau ag un maes ac yna ychwanegu meysydd eraill ato. Yn lle hynny, roedd pob maes yn cadw ei hunaniaeth heb 'gwympto' y naill i mewn i'r llall.

Drwy gymhwyso'r dull hwn i ddadansoddiad o faes polisi, osgowyd dechrau â materion 'maes', a thrwy ymchwilio i faes polisi o bob agwedd o anhydraddoldeb, mae'n bosibl i ni flaenoriaethu o'r sail tystiolaeth yn ogystal â chynnig argymhellion a fyddai'n llesol i *aml-'feysydd'*. Mae gallu blaenoriaethu pan fydd lobiwyr yn cystadlu am sylw yn hanfodol i lywodraeth a darparwyr gwasanaeth. Felly mae'n rhaid i'r Llywodraeth ddefnyddio dulliau megis *prif ffrydio aml-faes*, er mwyn iddynt wybod pa anhydraddoldebau a grëir neu a gynhelir gan y ffyrdd y gall polisïau a gwasanaethau gyfyngu neu alluogi.

Y dull prif ffrydio a chanfyddiadau darluniol

Er mwyn goresgyn y duedd bod 'materion neu themâu maes' yn pennu ffocws gwaith cydraddoldeb, penderfynwyd defnyddio data ac ymchwil am y chwe 'maes' anhydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a hawliau dynol i ddadansoddi'r modd y mae maes polisi'n gweithio a'r gwasanaeth a gyflenwir o ganlyniad.

Felly o'r dechrau, roedd y rhaglen waith wedi'i chynllunio i fod yn rhagweithiol ac yn ymchwiliol, gan geisio deall sut i wella gwasanaethau drwy ddeall anhydraddoldebau cyfredol. Yn y modd hwn, dewisodd y Panel Tystiolaeth y maes polisi yr oeddent am ymchwilio iddo, ar ôl cael crynodeb o'r polisïau ym mhob un o'r portffolios. Gan gydweithio, wrth

iddynt ganfod perthnasedd i bob un o'r 'meysydd' a hawliau dynol, dewiswyd archwilio sefyllfa gofalwyr anffurfiol di-dâl. Mae gofalwyr di-dâl yn cyfrannu £3.5bn bob blwyddyn i economi Cymru (LICC 2006).

Yn gryno, mae'r dull prif ffrydio 5 cam a ddyfeisiwyd gan Rees a Parken (2003) fel a ganlyn. Fe'i darlunnir yma drwy ddefnyddio rhywfaint o ganfyddiadau data ein prosiect ni:

- 1) *Defnyddir arbenigedd cydraddoldeb i ganfod meysydd o anghydraddoldeb sy'n addas i'w hymchwilio.* Er enghraifft dewisodd ein panel ni faes Gofal Cymdeithasol. Yn ymarferol mae'r 'canfod' hwn yn digwydd pan fydd lobiwyr cydraddoldeb neu'r EHRC yn dod â materion i sylw'r llywodraeth. Fodd bynnag mae hyn yn dueddol o fod yn 'faterion' cydraddoldeb yn seiliedig ar y maes yn hytrach na ffocws ar y maes polisi, a'r polisiâu a'r arferion a geir ynddo. Mae dechrau ag archwiliad o faes polisi, ac ymchwilio iddo o bersbectif yr holl 'feysydd' a hawliau dynol yn goresgyn ffocws cul ar un maes neu ei gilydd, a thros amser gallai ddarparu fframwaith ar gyfer ymholiadau systematig i bob maes polisi.
- 2) *Mapio dimensiynau cydraddoldeb y maes polisi - casglu, coladu a dadansoddi data meintiol ac ansoddol ar gyfer yr holl 'feysydd', gan nodi bylchau yn y data.* Defnyddiwyd data craidd: setiau data mawr megis y Cyfrifiad Poblogaeth, Arolwg y Gweithlu, ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol sy'n dangos pwy sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol (darparwyr sector gyhoeddus, wirfoddol neu breifat) ac yn derbyn Lwfans Gofalwyr, yn eu tro. Archwiliwyd y polisiâu cyfredol sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl, gan gynnwys y Strategaeth Gofalwyr (2000), uchelgais datganedig polisiâu newydd ac ymgynghoriadau byw ar bob polisi newydd (er enghraifft *Adroddiad Beecham 2005 - ar greu gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar y dinesydd a Bywydau Bodlon 2006*, strategaeth newydd y gwasanaethau cymdeithasol). Archwiliwyd y modd y gweithredir y Broses Asesu Unedig a'r Grant Seibiant i Ofalwyr. Gwahoddwyd arweinwyr polisi i gynnig tystiolaeth i'n panel ac i ateb cwestiynau. Archwiliwyd ymchwil sy'n bodoli eisoes gan y comisiynau neu grwpiau lobiö a darganfod bod hyn yn dueddol o fod yn ymchwil yn seiliedig ar 'faes' neu broblem,

ond er ei fod yn werthfawr, nid oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o fewn "meysydd" nac yn cynnig darlun aml-faes.

Unwaith iddynt gael eu coladu, defnyddir crynodebau data fel sail ar gyfer ymglymiad rhanddeiliaid er mwyn sicrhau darlun cyflawn o ddefnyddwyr gwasanaeth, a'u profiad o ddefnyddio gwasanaethau. Nid oedd modd i ni gynnal ymgynghoriad o fewn ein prosiect oherwydd prinder amser, ond llwyddwyd i ddynodi'r unigolion, y grwpiau, y rhanddeiliaid a'r cyrff gwahanol y dylid ymgynghori â hwy yn y maes polisi hwn.

Yn dilyn ein dadansoddiad o'r data roeddem yn gallu dynodi pwy oedd gofalwyr Cymru, gan arwain at ddealltwriaeth o bwy a allai fod yn fwyaf tebygol o gyflenwi gofal di-dâl yn y categori uchaf o oriau a fanylir yn y Cyfrifiad, sef 50+ o oriau bob wythnos. Y rhain yw: pobl hŷn – fel arfer wedi ymddeol, yn y boblogaeth oedran gweithio – menywod, ac mewn cyfran uwch na'u nifer – pobl anabl. Ar gyfer hil, tueddfryd rhywiol, crefydd, trawsrywiol a'r iaith Gymraeg, roedd y dystiolaeth yn ymgasglu o gwmpas rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau. Er enghraifft y syniad bod grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn 'edrych ar ôl eu pobl eu hunain' – myth a ffrwydrwyd yn ddiweddar gan ymchwil LICC (2003) yn manylu'r rhwystrau sy'n greiddiol i gynllun gwasanaethau sy'n rhwystro rhai aelodau o leiafrifoedd ethnig rhag defnyddio gwasanaethau gofalwyr. Nid yw ymagweddau Hawliau Dynol at gydraddoldeb yn defnyddio'r broses hon sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac felly dechreuwyd cwestiynu perthnasedd y dull prif ffrydio. Fodd bynnag, unwaith y dangoswyd yr anghydraddoldebau yn y maes drwy ddata, gwelwyd y gellid defnyddio dulliau hawliau dynol i'w hunioni. Felly mae'r broses yn ddull ar gyfer integreiddio'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.

- 3) *Darlunio*. Yn seiliedig ar y canfyddiadau, mae darlunio yn golygu gofyn i'n hunain beth fedrwn ni ei wneud i sicrhau newid trawsffurfiol drwy greu polisi neu wasanaethau fydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Ar y pwynt hwn yn ein prosiect, roedd perygl y byddai rhai 'meysydd' yn fwy blaenllaw oherwydd

bod data meintiol ar gael ar gyfer rhai ond nid eraill, ac roedd perygl o gael ein llethu gan faint yr wybodaeth fyddai'n golygu na allem wneud penderfyniadau. Ond nid fel hynny y bu. Roedd coladu'r materion a godwyd yn dangos cysylltiadau rhwng 'meysydd' gan gynnig golwg ar ddatrysiadau cyffredin.

Er enghraifft, daeth yn amlwg y byddai defnydd gwell o Daliadau Uniongyrchol a hawlio Cyllidebau Unigoledig (oedd ar y pryd yn cael eu peilota gan lywodraeth y DU mewn ardaloedd penodol), yn caniatáu gwell dewis o wasanaethau gofalwyr a dewis o ofalwr a gallai hwyluso taliadau i aelodau o'r teulu oedd wedi rhoi'r gorau i'w gwaith neu wedi israddio eu horiau er mwyn darparu gofal. Roedd yn amlwg y byddai trefniadau gweithio hyblyg da yn helpu menywod, pobl hŷn ac anabl i gynnal cyswllt â'r farchnad lafur drwy ganiatáu iddynt gyfuno gwaith a gofal.

Ymhellach, roedd trafferthion mewn nifer o 'feysydd' o ran rhwystrau iaith a materion yn ymwneud â sensitifrwydd diwylliannol. Roedd y rhain yn cynnwys pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol nad oeddent wedi'u cynrychioli mewn ffurflenni asesu gofalwyr ac nad oedd polisiâu oedd yn trafod teuluoedd niwclear heterorywiol yn unig yn cydnabod eu bod yn aml yn dibynnu ar gyfeillgarwch yn hytrach na rhwydweithiau teuluol (mae Cynllun Gweithredu Gofalwyr newydd 2007 bellach yn defnyddio terminoleg gynhwysol); ceir problemau iaith gyda phobl hŷn sy'n ddwyieithog ond sydd â Saesneg fel ail iaith ac y gallent droi'n ôl i'r Gymraeg wrth i ddefnydd y cof newid. I'r rhain gallai cael gofalwr seibiant sy'n siarad Cymraeg fod yn hanfodol. Hefyd yn achos y rheini nad oes ganddynt sgiliau iaith Saesneg (boed yn Gymry neu o leiafrifoedd ethnig) mae tueddiad i alw ar aelodau o'r gymuned i weithredu fel cyfieithwyr wrth esbonio eu hanghenion gofal i'r gwasanaethau cymdeithasol - nid yw hyn yn gwarchod urddas y person - datgelu manylion personol o flaen dieithriaid - yn waeth mae plant sydd â sgiliau iaith gwell yn aml yn cael eu gofyn i gyfieithu. Felly heb gwmpo'r canfyddiadau fesul maes - roedd datrysiadau cyffredin yn dod i'r amlwg oedd yn gwneud y broses yn fwy hylaw ac yn cysylltu ynghyd y 'meysydd' anghydraddoldeb a hawliau dynol - drwy'r datrysiadau 'darlunio'.

4) *Profi'r cynnyrch*: mae hyn yn golygu gwirio ein newidiadau arfaethedig am ganlyniadau bwriadus. Gallwn dynnu ar syniadau'r un grwpiau o randdeiliaid a ddynodwyd pan gasglwyd y data (cam 2 uchod) drwy gyflwyno ein canfyddiadau a holi eu barn ynglŷn â sut y byddai'r polisi arfaethedig yn gweithio'n ymarferol – a fydd yn sicrhau'r canlyniadau disgwylidig? Mae'r Panel Tystiolaeth hefyd yn gyfrwng ardderchog i symud at ymgynghori ac ymglymiad ehangach – maent yn deall y canfyddiadau a'r datrysiadau a gynigir.

Mae defnyddio cameos a phortreadau bychan wrth brofi'r cynnyrch hefyd yn ddull o gyrraedd at weithio trawsadrannol. Mae hyn yn golygu ein rhoi ein hunain 'yn esgidiau rhywun arall' i weld a yw'r datrysiad arfaethedig yn gweithio i bobl wahanol yn eu sefyllfaoedd cymhleth. Mae cameos sylfaenol yn hawdd i'w trefnu. Er enghraifft gofynnwyd i'n panel ni ystyried sut y byddai eu cynigion yn effeithio ar “siaradwr Cymraeg anabl sydd wedi ysgaru ac sy'n byw yng Nghymru wledig gyda dau o blant”, neu ar “ fenyw sengl hŷn yn byw yng Nghaerdydd sy'n gweithio rhan amser ac yn gofalu am 30 o oriau'r wythnos”, neu “fyfyrwr Moslemaidd sy'n byw ym Mangor ac yn gofalu am ei dad”. Ar gyfer pob un o'r rhain rydym yn ystyried hygyrchedd a chynhwysiant, yr amser sydd ar gael, incwm, gofal plant a thrafnidiaeth i allu cael mynediad at y gwasanaeth/addysg/cyflogaeth neu ymweld â swyddfa gynghori, asiantaeth fudd-daliadau, meddyg etc - gan nodi bod hygyrchedd a chynhwysiant yn wahanol i bob un.

5) *Monitro a Gwerthuso*: Mae prif ffrydio yn broses ddysgu barhaus sy'n esblygu. Bwriad y mesurau gwerthuso yw cynorthwyo ag adolygu ac ailgynllunio ar gyfer gwella polisi ac ymarfer. Mae mesur canlyniadau yn hanfodol hefyd ac ar gyfer hyn rydym yn argymhell datblygu dangosyddion cydraddoldeb. Mae dangosyddion cydraddoldeb yn fesuriad o welliant mewn anghydraddoldebau sy'n arwain at gyflawni amcanion cydraddoldeb cyffredinol.

Felly, er enghraifft mewn perthynas â gofalwyr di-dâl, faint o ofalwyr sy'n fenywod oedran gweithio, pobl hŷn neu bobl anabl sydd wedi'u recriwtio a'u cadw mewn swyddi da drwy gefnogaeth cyflogaeth, gan gynnwys trefniadau gweithio a darparu gofal seibiant? Gallai gwelliannau sylweddol yn y meysydd hyn ganiatáu i lywodraeth y DU gyrraedd ei nod datganedig cyffredinol, sef 80% cyflogaeth erbyn 2010.

Canfyddiadau ac Argymhellion ar gyfer Prif ffrydio Aml-faes

1) Cynllun y Prosiect a Hyfforddiant

Gellir goresgyn etifeddiaeth gweithio mewn meysydd unigol drwy ddefnyddio'r dull cywir o weithio. Mae'r broses o brif ffrydio sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n cynnwys lleisiau'r 'meysydd' yn gweithio gyda'i gilydd, yn gallu integreiddio'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae dechrau ag archwiliad o faes polisi a defnyddio'r "meysydd" cydraddoldeb a hawliau dynol fel pwyntiau dadansoddi yn hwyluso gweithio aml-faes. Mae hefyd yn osgoi gwrthdaro neu gystadlu rhwng materion gwahanol 'feysydd' ac yn darparu ar gyfer blaenoriaethu.

Mae prif ffrydio *aml-faes* cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gofyn bod 'gwneuthurwyr cydraddoldeb a gwneuthurwyr polisi' yn gweithio gyda'i gilydd. Mae angen i'r dull rhagweithiol, ymchwiliol hwn gael ei sefydlu'n ofalus, gyda hyfforddiant cynorthwyedig sy'n galluogi i baneli gytuno ar reolau sylfaenol ar gyfer cydweithio, deall anghydraddoldebau mewn 'meysydd' ar wahân i'w rhai hwy eu hunain, eu galluogi i ymdrin â'r amrywiaeth o fewn 'meysydd', a dynodi pwyntiau ymyrraeth allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer. Gellir defnyddio'r dull hwn yn y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu Cynllun Cydraddoldeb Sengl a chynlluniau gweithredu.

Mae angen hyfforddiant a chefnogaeth cynorthwyedig ar dechnegau cyflenwi data, casglu a gwerthuso tystiolaeth, dadansoddi a chyfosod data ac ymchwil ac ymglymiad rhanddeiliaid. Gwelwyd ymagweddau gwahanol yn y cyrff sector statudol a gwirfoddol yn eu strategaethau ar

gyfer ymgynghori. Ychydig iawn o ymgynghori oedd yn cael ei wneud gan rai, gydag eraill, yn bennaf y “meysydd’ newydd’, y Comisiwn Hawliau Anabledd a’r Comisiynydd Plant yn cynnal cyswllt parhaus â’u hamrywiol grwpiau o randdeiliaid.

2) Data

Dangoswyd gwahaniaethau o ran dulliau o ymdrin ag anghydraddoldeb rhwng y “meysydd” yn y prosesau casglu data. Er enghraifft, roedd eiriolwyr ar gyfer rhyw, oedran ac anabledd yn fwy abl i gael gafael ar ddata meintiol oedd yn dangos sut mae’r ffactorau hyn yn cynyddu’r duedd i ddod a pharhau i fod yn ofalwr a sut y gall tlodi ac iechyd salach fod yn ganlyniad i hynny. Ond ar gyfer hil, yr iaith Gymraeg, tueddfryd rhywiol a chrefydd, roedd rhaid tynnu ar ffynonellau ansoddol ac roedd y dystiolaeth yn gyfyngedig i faterion mynediad a chael gwasanaethau wedi’u darparu mewn ffyrdd sy’n ddiwylliannol briodol.

Fodd bynnag, mae’n bwysig cofio bod aelodau o’r grŵp olaf hefyd yn perthyn i ryw, bod ganddynt oedran a’u bod o bosibl yn anabl felly gallwn dynnu ynghyd yr anghydraddoldebau strwythurol a’r materion sy’n effeithio ar barch ac annibyniaeth yr unigolyn.

Ar gyfer gweithio aml-faes mae’n hanfodol bod yn ymwybodol y gall diffyg data ein hatal weithiau rhag cyrraedd y ddealltwriaeth ehangach hon o’r cysylltiadau rhwng yr unigolyn ac anghydraddoldebau strwythurol mewn rhai “meysydd”. Drwy ddod â data o’r fath ynghyd roedd y panel yn cael darlun crwn o’r ‘person cyflawn’ o safbwyntiau’r grŵp a’r unigolyn o anghydraddoldebau lluosog, gan gynnwys safbwynt hawliau dynol.

Sefydlwyd hefyd nad yw setiau data mawr ar hyn o bryd yn hwyluso ymholiad ystyrion i’r holl ‘feysydd’ (h.y. dim data Cyfrifiad ar dueddfryd rhywiol o gwbl, a dim cydberthynas ar gyfer aelodau o grwpiau crefyddol lleiafrifol a allai fod yn ofalwyr), nac yn darparu dealltwriaeth ryng-sector (dim data Cyfrifiad ar gael ar unwaith i ddangos rhyw nac oedran y 15.3% o bobl anabl sy’n darparu 50+ o oriau'r wythnos o ofal di-dâl i rywun arall). Nid yw deall effaith anghydraddoldebau lluosog ar y person yn rhywbeth y gellir ei ddeall o setiau data meintiol.

Casglwyd mai’r unig ffordd y gellir sicrhau’r ddealltwriaeth gyfoethog angenrheidiol o brofiad, sydd ei hangen ar gyfer gweithio rhwng

sectorau, yw drwy dechnegau ymchwil ansoddol. Yn aml mae technegau o'r fath yn cael eu tanbriso ond rhaid rhoi sylw i ganfyddiadau lle ceir methodolegau cadarn.

Rydym yn nodi fod yr Adolygiad o Gydraddoldebau (2007) yn dweud bod "adolygiad trawsbynciol o anghenion cyfredol ynglŷn â data yn fan cychwyn sylfaenol ac angenrheidiol os yw'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddadansoddi, deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau'n iawn". Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn, a bydd sefydlu Cronfa Ddata Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gymorth mawr i'r gwaith hwn yng Nghymru. Fodd bynnag rhaid cofio am yr ychydig hanes cyfundrefnol sydd ar gael o ymchwilio data o safbwynt cydraddoldeb. Fel yr argymhellwyd uchod, mae angen i ymchwilwyr hyfforddedig, arbenigwyr cydraddoldeb a gwneuthurwyr polisi weithio gyda'i gilydd, gan fabwysiadu'r dull prif ffrydio a ddisgrifiwyd.

3) Gweithio Aml-faes.

Roedd yn hanfodol cael cynrychiolwyr o'r holl feysydd wrth ein bwrdd, yn dod â safbwyntiau a dealltwriaeth wahanol o'u gwybodaeth a'u profiad. Fodd bynnag, sylwyd bod gwahanol leisiau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn ystod ein gwaith. Mae hyn oherwydd y traddodiad o weithio mewn maes unigol, diffyg amser ac adnoddau ar gyfer cydraddoldeb, ac er bod brwdfrydedd ar gyfer gweithio ar draws meysydd a gweithio rhyngadrannol yn bodoli, mae ofn hefyd y gallai hyn arwain at leihau effaith pob maes.

Fel yr ydym ni wedi disgrifio a darlunio gweithio aml-faes, mae gennym ddull ar gyfer cadw hunaniaeth, gwerth a llais yr holl feysydd, gan sicrhau hefyd bod modd blaenoriaethu.

Llyfryddiaeth Ddethol.

- Adolygiad ar Gydraddoldeb (2007) *Tegwch a Rhyddid: Adroddiad Terfynol yr Adolygiad ar Gydraddoldeb*
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2008) *The Insight project*, Ministry of Justice Research Series 1/08,
- Rees, T. (1998) *Mainstreaming Equality in the European Union*, Llundain: Routledge
- Rees, T. a Parken, A. (2002) *Y pethau mae gwir angen i chi eu gwybod, ond ofn gofyn amdanynt...* Manceinion: Comisiwn Cyfle Cyfartal tt. 14 (Cymraeg a Saesneg) ISBN 1-84206-091-0 hefyd ar wefan EOC <http://www.eoc.org.uk>
- Rees, T Parken, A (2003) *Gender Mainstreaming in the Malta Public Service: The Gender Impact Assessment Project*, Adroddiad Terfynol i Adran Menywod yn y Gymdeithas, Y Weinyddiaeth Polisi Cymdeithasol
- Rees, T (2005) 'Reflections on the uneven development of gender mainstreaming in Europe' *International Journal of Feminist Politics*, Cyf. 7, Rhif.4, tt. 555-574
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) *Strategaeth Gofalwyr*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Herio'r myth: problemau mynediad gofalwyr o Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig*, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Strategaeth Gofalwyr, Cynllun Gweithredu*, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd.
- Adroddiad Beecham (2006) *Ar Draws Ffiniau*, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Caerdydd.
- Verloo, M (2006) 'Multiple Inequalities, Intersectionality and the European Union', *EJWS Cyf*, 13 (3), 211-228
- Yuval-Davies, N. (2006) 'Intersectionality and Feminist Politics', *EJWS Cyf*, 13 (3), 193 – 210
- Zappone, K. E. (2001) *Charting the Equality Agenda: A Coherent Framework for Equality Strategies in Ireland North and South*, Equality Authority and Equality Commission for Northern Ireland